



Ysgol Y Strade, ☎ (01554) 745100
Heol Sandy, swyddfa@strade.sirgar.sch.uk
Llanelli,
Sir Gâr,
SA15 4DL,

Annwyl Riant /Warchodwr

Taith Hanes Y Chweched i Auschwitz, Krakow, Mawrth14^{eg} -16^{eg} 2018

Mae'n bleser gennym ni fel adran i'ch hysbysu y byddwn yn trefnu taith i Auschwitz ac i ddinas Krakow. Hyderwn y bydd y daith yn brofiad bythgofiadwy i'r disgyblion ac yn gyfle i flasau profiadau hanesyddol ynghyd â chefnogi eu haddysgu o fewn y dosbarth.

Cost y daith fydd **£370** - i gynnwys cludiant i'r meysydd awyr ym Mhrydain ac yng Ngwlad Pŵyl, gwesty a dau bryd o fwyd y dydd (brecwast a swper), cost tywyswyr, cludiant a mynediad i Auschwitz, ymweliadau ag ardal Iddewig dinas Krakow a thaith Schindler ac yswiriant llawn.

Mae'r daith ar agor i ddisgyblion blwyddyn 12 ac 13 sy'n astudio Hanes yn unig. Os oes diddordeb gan eich plentyn a fydddech cystal â dychwelyd y daflen amgaedig ynghyd â **siec** am **£150** yn daladwy i **Ysgol Y Strade** fel blaendal erbyn **Medi'r 28ain, 2017**. Yn anffodus ni allwn ad-dalu eich blaendal oni bai fod yna rywun yn barod i gymryd lle eich plentyn.

Noson Wybodaeth

Os ydych am wybod mwy am y daith mae croeso i chi ffonio'r ysgol ar **01554 745100** neu fy e-bostio **hjones@strade.sirgar.sch.uk**. Mi fydd cyfle i chi ddod i gyfarfod byr yn neuadd yr ysgol yn agosach at yr amser er mwyn derbyn gwybodaeth bellach.

Yn gywir,

Mrs Heulwen Jones (Yr Adran Hanes)

Taith Hanes Y Chweched i Auschwitz, Krakow, Mawrth14^{eg} -16^{eg} 2018

Rhoddaf ganiatad i _____ o ddosbarth _____ i
fynychu'r daith hanes i Krakow.


Amgaeaf flaendal am **£150** Noder: ni allwn ad-dalu eich blaendal yn ôl.

Enw

Llofnod

..... Dyddiad.....

(Rhiant /Gwarchodwr)



Pennaeth

Mr Geoff Evans B.Sc (Hons), M. Ed